

Datganiad ar y newidiadau i amodau trwyddedau

Datganiad ar y newidiadau i'r amodau sydd
wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaeth
Ychwanegol Teledu Digidol

Datganiad

Cyhoeddwyd 20 Awst 2024

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cyflwyniad	4
3. Ein penderfyniadau	6
A1 Newidiadau i amodau trwyddedau	10

1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r newidiadau y mae Ofcom yn eu gwneud i'r amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaeth Ychwanegol Teledu Digidol ('DTAS'). Mae'r gwasanaethau hyn yn darlledu ar amblecsau teledu daearol digidol ac fel arfer yn cynnwys gwasanaethau testun neu ddata.
- 1.2 Fe wnaethom esbonio yn [ein hymgyngoriad](#) y byddai rhai o'r amodau presennol sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau DTAS yn elwa o gael eu diweddarau. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd diweddar mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y rhyngwyllydd sydd ar gael i wylwyr yn y DU, lle mae defnyddio amodau presennol y drwydded yn arwain at ganlyniad a allai fod yn ddryslyd i wylwyr. Fe wnaethom sôn hefyd am rai newidiadau gweinyddol yr hoffem eu cyflwyno.
- 1.3 Mae adran 3(4)(b) o Ddeddf Darlledu 1990 yn caniatáu i Ofcom wneud newidiadau i amodau trwyddedau darlledu, a chynnwys amodau newydd, drwy amrywio'r trwyddedau, ar yr amod bod y trwyddedeion wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau am y cynnig i wneud newidiadau. Rhoddodd ein hymgyngoriad y cyfle i drwyddedeion wneud hynny.
- 1.4 Ar ôl ystyried y ddau ymateb a gawsom i'n hymgyngoriad, fe wnaethom nodi ein penderfyniadau yn y ddogfen hon.

Ein penderfyniadau – yn gryno

- Diwygio'r amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' i nodi nad oes angen rhybudd os yw'r gwasanaeth teledu trydydd parti y mae'r trwyddedai'n rhoi mynediad iddo yn dal trwydded darlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom.
- Ychwanegu amodau trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' a 'gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol' at bob trwydded DTAS fel bod pob un o'r trwyddedau hynny, lle bo'n bosibl, yn cynnwys yr un amodau.
- Newid cyfeiriad at 'y Frenhines' yn yr amod trwydded 'force majeure' i 'y Brenin'.

2. Cyflwyniad

Beth yw gwasanaethau DTAS?

- 2.1 O dan adran 211 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003'), mae dyletswydd ar Ofcom i reoleiddio rhai gwasanaethau teledu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol teledu digidol.
- 2.2 Mae Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol (DTAS) yn wasanaethau sy'n cael eu darlledu ar amblecs teledu daearol digidol (DTT). Mae DTT yn cael ei adnabod yn gyffredin fel Freeview, ac mae amblecs yn ffordd o ddarlledu nifer o wasanaethau teledu, radio a data gan ddefnyddio signal digidol.
- 2.3 Nodir y diffiniad o DTAS yn [adran 24 o Ddeddf Darlledu 1996 \('Deddf 1996'\)](#). Maent yn wasanaethau sydd fel arfer yn cynnwys gwasanaethau testun neu ddata. Er enghraifft, defnyddir DTAS i ddarlledu meddalwedd sy'n galluogi gwylwr sy'n gwyllo teledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwyd i gysylltu â'r rhyngwyd a gwyllo sianeli teledu a ddarperir ar y rhyngwyd, sydd fel arfer yn cael eu darparu gan drydydd partion, fel y feddalwedd sy'n mynd â gwylwr i wasanaethau fel Channelbox o Amserlen Rhaglenni Electronig ('EPG') Freeview. Yn yr enghraifft hon, y DTAS yw'r feddalwedd sy'n rhan o'r ffrwd ddarlledu DTT ac sy'n gweithredu fel y cyswllt rhwng y DTT a'r rhyngwyd, nid y sianeli teledu a ddarperir ar y rhyngwyd. Weithiau, cyfeirir at y mathau hyn o DTAS fel gwasanaethau 'porth'.

Pa drwyddedau mae Ofcom yn eu cyhoeddi?

- 2.4 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau DTAS i wasanaethau testun neu ddata sy'n cael eu darlledu, fel y feddalwedd yn yr enghraifft uchod.
- 2.5 Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer gwasanaethau sy'n darlledu rhaglenni teledu. Bydd y gwasanaethau teledu hyn yn gofyn am [drwydded Gwasanaeth Rhaglenni Teledu Digidol \(DTPS\)](#) os ydynt yn cael eu darlledu ar DTT, a [thrwydded Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu \(TLCS\)](#) os ydynt yn cael eu darlledu gan ddefnyddio lloeren neu gebl.
- 2.6 Bydd gan wasanaethau teledu sy'n cael eu darparu dros y rhyngwyd drwydded TLCS os oes modd cael gafael ar y gwasanaeth drwy EPG wedi'i Rheoleiddio yn y DU.

Amodau trwydded

- 2.7 O dan adran 4(1)(a) o Ddeddf 1990, mae dyletswydd ar Ofcom i gynnwys yn nhrwydded pob darlledwr yr amodau sy'n briodol, yn ein barn ni, i'n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau (ac unrhyw ddyletswyddau a osodir ar ddeiliaid trwydded) o dan Ddeddf 1990, Deddf Darlledu 1996 ('Deddf 1996') neu Ddeddf 2003.
- 2.8 Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau Ofcom i sicrhau'r canlynol:
- a) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y DU sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;

- b) yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n rhoi digon o ddiogelwch i aelodau'r cyhoedd rhag bod deunydd sarhaus a niweidiol yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o'r fath; a
- c) yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n rhoi digon o ddiogelwch i aelodau'r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu achosion o dorri ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

Ein hymgyngoriad

- 2.9 Fe wnaethom esbonio yn ein hymgyngoriad y byddai rhai o'r amodau presennol sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau darlledu DTAS yn elwa o gael eu diweddarau. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd diweddar mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y rhyngwrwyd sydd ar gael i wylwyr yn y DU, lle mae defnyddio amodau presennol y drwydded yn arwain at ganlyniad a allai fod yn ddrislyd i wylwyr. Mae rhai newidiadau gweinyddol yr hoffem eu cyflwyno hefyd.
- 2.10 Mae adran 3(4)(b) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i Ofcom wneud newidiadau i amodau trwyddedau darlledu, a chynnwys amodau newydd, drwy amrywio'r trwyddedau, ar yr amod bod y trwyddedeion wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau am y cynnig i wneud newidiadau. Rhoddodd ein hymgyngoriad y cyfle i drwyddedeion wneud hynny.
- 2.11 Cawsom ddau ymateb i'n hymgyngoriad, y naill gan Everybody TV Ltd a'r llall gan ymatebydd unigol. Rydym wedi cyhoeddi'r ymatebion ar ein [gwefan](#).
- 2.12 Yn yr adran ganlynol rydym yn nodi cynigion ein hymgyngoriad, yr ymatebion a ddaeth i law a'n penderfyniadau terfynol.

3. Ein penderfyniadau

Pryd mae angen dangos rhybudd

- 3.1 Rydym wedi gweld mwy a mwy o wasanaethau teledu sy'n cael eu darparu ar y rhyngwrwyd ar gael i wylwyr yn y DU. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn ar gael drwy DTT, lle mae gwasanaeth sy'n dal trwydded DTAS yn darlledu meddalwedd sy'n mynd â'r gwylwr o DTT i'r gwasanaeth teledu a ddarperir ar y rhyngwrwyd. Os oes modd cael mynediad at y gwasanaeth teledu sy'n cael ei ddarparu ar y rhyngwrwyd drwy gyfrwng EPG wedi'i rheoleiddio, er enghraifft mae ganddo ei rif sianel ei hun, yna bydd gan ddarparwr y feddalwedd drwydded DTAS, a bydd gan ddarparwr y gwasanaeth teledu drwydded TLCS.
- 3.2 Un o amodau trwyddedau DTAS sy'n rhoi mynediad at wasanaethau teledu trydydd parti yw bod yn rhaid iddynt ddangos rhybudd sy'n rhoi gwybod i'r gwylwyr eu bod ar fin gweld deunydd sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngwrwyd, nad yw efallai'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau teledu eraill, a chynghori'r gwylwr i fod yn ofalus. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn amod trwydded 22A 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti'. Mae'r amod hwn i'r drwydded yn un o'r ffyrdd y mae Ofcom yn diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol.
- 3.3 Mae'r amod trwydded yn nodi nad oes angen dangos rhybudd os yw'r gwasanaeth o fewn awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac felly'n cael ei reoleiddio ganddi. Y rheswm pam y ceir eithriad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio mewn mannau eraill yn Ewrop yw oherwydd bod safonau sylfaenol a rennir ar gyfer cynnwys teledu ledled Ewrop a'r DU. Mae'r safonau sylfaenol hyn a rennir yn gweithredu i ddiogelu gwylwyr rhag niwed posibl.
- 3.4 Nid yw'r DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mwyach, ac felly, fel yr esboniwyd yn ein hymgyngoriad, mae geiriad presennol yr amod trwydded yn golygu bod yn rhaid dangos rhybudd hyd yn oed os yw'r gwasanaeth teledu wedi'i drwyddedu gan Ofcom ac felly'n ddarostyngedig i'n rheolau cynhwysfawr o ran safonau'r cynnwys.
- 3.5 Gan ein bod bellach yn gweld gwasanaethau teledu sy'n cael eu darparu ar y rhyngwrwyd yn ymddangos ar EPGs wedi'u Rheoleiddio ac yn dal trwyddedau TLCS, fe wnaethom gynnig ei bod yn amser priodol i ni ddiweddarau'r amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' fel nad oes angen dangos rhybudd, yn ogystal â'r eithriadau presennol, os yw'r gwasanaeth teledu yn dal trwydded darlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom. Effaith y newid a gynigir fyddai llai o achlysuron lle mae angen arddangos rhybudd.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.6 Roedd Everyone TV Ltd yn cytuno â'n cynnig, gan ddweud "Fel gweithredwr tri o'r llwyfannau teledu lle mae'r sianeli dan sylw yn ymddangos (Freeview, Freeview Play a Freely), rydyn ni'n credu y bydd cynigion Ofcom yn helpu gwylwyr i wneud dewis gwybodus o ran faint o gynnwys maen nhw'n ei ddefnyddio, ac yn lleihau dryswch."¹

¹ Ar hyn o bryd mae Ofcom yn rheoleiddio Freeview a Freeview Play. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori'n ddiweddar ar [gynigion i reoleiddio amserlenni rhaglenni electronig ychwanegol \(EPGs\)](#).

- 3.7 Roedd yr ymatebydd unigol o'r farn na fyddai'r cam hwn yn datrys y dryswch wedi'i achosi gan yr hyn roeddent yn ei ystyried yn rheoleiddio anghyson o ran gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y rhyngwrdd: "...Ychydig iawn o bobl sy'n gwyllo gwasanaethau ar draws dyfeisiau symudol a theledu sy'n deall bod rhai gwasanaethau IP yn cael eu rheoleiddio, ac nad yw rhai eraill, heb sôn am y rheswm pam, ac nid yw hyn yn ystyried y dechnoleg bresennol sy'n cael ei defnyddio heb sôn am lle mae angen i ni fod ar gyfer y genhedlaeth nesaf...". Aeth yr ymatebydd yn ei flaen, "...lle mae 'gwasanaethau cynnwys' yn gallu ymddangos ar deledu neu ar ddyfais [...], dylai pob un ohonyn nhw gael ei reoleiddio neu beidio..."

Beth wnaethom ni benderfynu

- 3.8 Er bod Everyone TV Ltd yn cytuno y byddai'r cam yn helpu i leihau dryswch i wylwyr, roedd yr ymatebydd unigol o'r farn y byddai'n annigonol.
- 3.9 Rydym yn cydnabod bod newidiadau wedi bod mewn technoleg a dulliau darparu yn y farchnad teledu ers cyflwyno'r fframwaith statudol presennol. Fodd bynnag, wrth gynnig y newidiadau hyn, mae Ofcom yn rhwym wrth y fframwaith statudol presennol ac mae newidiadau i'r fframwaith statudol yn fater i'r Llywodraeth.
- 3.10 Ar wahân, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch a ddylid defnyddio ei phwerau presennol i wneud rheoliadau sy'n pennu bod EPG ychwanegol yn EPG wedi'i Rheoleiddio,² a fyddai'n golygu bod yn rhaid i wasanaethau teledu arnynt gael trwydded Ofcom.³ Un o'r cynigion yn ymgynghoriad y Llywodraeth yw dynodi'r gwasanaethau 'porth' a ddisgrifir ym mharagraff 2.3 fel EPGs wedi'u Rheoleiddio a fyddai'n golygu bod angen i'r holl sianeli teledu sydd ar gael drwy'r gwasanaethau 'porth' hynny gael trwydded darlledu.
- 3.11 Credwn y gallai fod yn ddryslyd i wylwyr weld neges yn eu rhybuddio na fydd y gwasanaeth maen nhw ar fin ei wyllo yn cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau teledu eraill, pan mae'r gwasanaeth, mewn gwirionedd, yn cael ei drwyddedu gan Ofcom ac felly'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau trwyddedig eraill Ofcom. Rydym hefyd yn nodi y gallai fod yn rhwystredig i'r darparwyr gwasanaethau teledu, gan y gallai gwyliwr ddewis peidio â gwyllo eu gwasanaeth o ganlyniad i'r rhybudd, er bod y gwasanaeth hwnnw'n ddarostyngedig i'r un rheolau â gwasanaethau trwyddedig eraill Ofcom nad oes angen iddynt ddangos rhybudd.
- 3.12 Felly, rydym wedi penderfynu amrywio amod y drwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' fel y cynigir yn ein hymgynghoriad.
- 3.13 Mae amod llawn y drwydded wedi'i nodi yn Atodiad 1, gyda'r testun y byddwn yn ei ddileu gyda llinell drwydded a'r testun y byddwn yn ei ychwanegu **mewn print trwm**.

Cysondeb ar draws amodau ym mhob trwydded

- 3.14 Darperir gwahanol fathau o wasanaethau testun a data dan drwyddedau DTAS. Er enghraifft, mae rhai gwasanaethau DTAS trwyddedig yn rhaglenni ('applications') sy'n caniatáu i'r gwyliwr gael gafael ar gynnwys arall, mae rhai yn Amserlenni Rhaglenni Electronig (EPGs), ac mae eraill yn fathau eraill o feddalwedd. O ganlyniad, mae Ofcom wedi cyhoeddi gwahanol drwyddedau DTAS gydag amrywiadau bach yn yr amodau sydd ynddynt, yn dibynnu ar union

² O dan adran 211A o Ddeddf 2003.

³ Nid oes rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan wlad sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol gael trwydded Ofcom i ddarlledu ar EPG wedi'i Rheoleiddio yn y DU.

natur y gwasanaeth trwyddedig. Yn gyffredinol, mae trwyddedau ar gyfer gwasanaethau sy'n rhoi mynediad at wasanaethau teledu trydydd parti yn cynnwys amodau trwydded ychwanegol – amod 22A 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' ac amod 22B 'gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol' – ond mae amrywiadau ar draws templedi'r drwydded.

- 3.15 Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer trwyddedeion DTAS, ac am resymau gweinyddol, fe wnaethom gynnig ychwanegu amodau trwydded 22A a 22B at bob trwydded DTAS fel y bydd pob trwyddedai DTAS, cyn belled ag y bo modd, yn dal trwyddedau sy'n cynnwys yr un amodau. Mae Adran 24A o Ddeddf 1996 yn mynnu bod Ofcom yn gwneud popeth y mae'n ei ystyried yn briodol i atal gwasanaethau ychwanegol digidol rhag galluogi aelodau o'r cyhoedd i gael gafael ar "ddeunydd diangen a niweidiol difrifol". Mae deunydd diangen a niweidiol difrifol yn golygu deunydd nad yw wedi'i gynnwys yn y DTAS ac mae'n ymddangos i Ofcom (i) fod ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol, neu (ii) ei fod yn debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn. Nod amodau trwydded 22A a 22B yw rhoi gwybod i Ofcom am y gwasanaethau y mae trwyddedeion DTAS yn galluogi mynediad iddynt ac yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedeion gymryd camau penodol os bydd deunydd niweidiol difrifol yn dod yn hygyrch i'r cyhoedd.
- 3.16 Dim ond i'r graddau y mae'r gwasanaeth trwyddedig yn darparu mynediad at wasanaethau cynnwys trydydd parti y byddai'r amodau hyn yn berthnasol. Mae amodau'r drwydded 22A a 22B wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.17 Dim ond un o'r ddau ymatebydd a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig hwn. Cytunodd Everyone TV Ltd â'r cynnig, gan ddweud "Rydyn ni'n credu y bydd dull gweithredu cyson ar gyfer trwyddedeion DTAS yn helpu i ddiogelu gwylwyr rhag cynnwys niweidiol."

Beth wnaethom ni benderfynu

- 3.18 Ni chawsom unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn a byddwn yn ychwanegu amodau 22A a 22B at bob trwydded DTAS am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 3.8-3.13 uchod.

Force majeure

- 3.19 Mae amod 'force majeure' wedi'i gynnwys ym mhob trwydded DTAS. Mae hyn yn darparu nad yw deiliad y drwydded yn gyfrifol am unrhyw achos o dorri amod trwydded sy'n digwydd oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth resymol. Mae'r amod yn cynnwys cyfeiriad at "*gelynion y Frenhines*", ac rydym yn cynnig diweddarau hyn i "*gelynion y Brenin*".
- 3.20 Byddwn yn diweddarau pob trwydded DTAS.

Y camau nesaf

- 3.21 Byddwn yn cyflwyno hysbysiad o'r newidiadau i drwyddedau ar gyfer pob trwyddedai DTAS presennol, gan amrywio'r trwyddedau i wneud y newidiadau rydym wedi penderfynu arnynt.

3.22 Byddwn hefyd yn diweddarau templed trwyddedau DTAS ar [dudalen we trwyddedu DTAS](#) drwy gynnwys y newidiadau. Bydd unrhyw drwyddedau DTAS newydd a roddir gennym yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio templed newydd y drwydded.

A1 Newidiadau i amodau trwyddedau

A1.1 Rydym yn cynnig cynnwys amodau 22A a 22B ar y ffurf a nodir isod ym mhob trwydded DTAS. Rydym ni hefyd yn gwneud rhai newidiadau i eiriad amod 22A ac amod 23. Mae'r newidiadau wedi'u nodi isod, ac mae'r testun y byddwn yn ei ddileu gyda llinell drwydded a'r testun y byddwn yn ei ychwanegu **mewn print trwm**.

22A. Gwasanaethau cynnwys trydydd parti

- (1) Ni chaiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb ag unrhyw berson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sydd â deunydd sy'n cyfateb i sgôr R-18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, deunydd sy'n cynnwys "deunydd rhyw ar gyfer oedolion" fel y'i diffinnir yn y Cod Safonau, neu ddeunydd sy'n hysbysebu gwasanaethau adloniant rhywiol sy'n seiliedig ar delegyfathrebu fel y'u diffinnir yng Nghod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion ("sgwrsio am ryw i oedolion"), ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (2) a (3) isod.
- (2) Dim ond pan fo'r gwasanaeth hwnnw wedi'i drwyddedu gan Ofcom neu Aelod-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y caiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb â pherson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys llinol sydd â "deunydd rhyw ar gyfer oedolion".
- (3) Dim ond pan fydd y gwasanaeth hwnnw wedi'i drwyddedu gan Ofcom neu Aelod-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y caiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb â pherson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys llinol sydd â deunydd ar gyfer "sgwrsio am ryw i oedolion".
- (4) Cyfeirir at y deunydd ym mharagraffau (2) a (3) fel y "deunydd ar gyfer oedolion sy'n cael ei reoleiddio".
- (5) Ni fydd y Trwyddedai yn galluogi mynediad, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sy'n cynnwys deunydd a allai achosi niwed difrifol, neu sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn.
- (6) Os daw'r Trwyddedai'n ymwybodol bod gwasanaeth cynnwys sy'n dangos (a) deunydd sy'n cyfateb i sgôr R-18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu fel arall yn gyfystyr â "deunydd rhyw ar gyfer oedolion" neu ddeunydd ar gyfer "sgwrsio am ryw i oedolion", nad yw'n ddeunydd ar gyfer oedolion sy'n cael ei reoleiddio, neu (b) deunydd sydd â'r potensial i achosi niwed difrifol, neu sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn, y gellir cael mynediad ato drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad yw'r gwasanaeth cynnwys ar gael drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig fel mater o frys.

- (7) Yn amodol ar Amod 22A(1), pan fydd gan y Trwyddedai gytundeb â darparwr neu ddarparwyr cynnwys i alluogi mynediad at eu gwasanaeth(au) cynnwys drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd y Trwyddedai'n dangos, mewn lle amlwg ac am gyfnod o bum eiliad o leiaf, sgrin rybuddio bob tro cyn i'r gwyliwr gael mynediad at y gwasanaeth(au) cynnwys a nodir yn (8) isod. Rhaid i'r sgrin rybuddio hon roi gwybod i'r gwyliwr ei fod ar fin gweld deunydd sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngwyd, nad yw efallai'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â chynnwys teledu, a chynghori'r gwyliwr i fod yn ofalus. Rhaid darparu sgrinlun o'r testun rhybudd ar y sgrin i Ofcom ei gymeradwyo o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Efallai y bydd Ofcom yn mynnu bod y testun rhybudd yn cael ei amrywio, gan gynnwys er mwyn iddo roi manylion cyfeiriad gwefan i gael rhagor o wybodaeth, a fydd yn cael ei hysbysu i'r Trwyddedai o bryd i'w gilydd.
- (8) Mae amod 22A(7) yn berthnasol pan fydd y gwasanaeth cynnwys y gellir cael mynediad ato drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig (neu o leiaf un o'r gwasanaethau cynnwys y gellir cael mynediad ato lle mae darparwr yn darparu mwy nag un):
- (a) **heb ei drwyddedu gan Ofcom, ac sydd** y tu allan i awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd at ddibenion y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ac felly nid yw'n cael ei reoleiddio gan unrhyw Aelod-wladwriaeth o'r fath; neu
- (b) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, nad yw Ofcom wedi cael gwybod amdano.

22B. Gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol

- (1) Ni fydd y Trwyddedai'n ymrwymo i gytundeb gydag unrhyw berson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sydd wedi'i wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- (2) Os daw'r Trwyddedai'n ymwybodol bod gwasanaeth cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hygyrch drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad yw'r gwasanaeth cynnwys ar gael drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig fel mater o frys.

23. Force majeure

Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1996

Ni fydd y Trwyddedai yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am fethiant i gydymffurfio ag unrhyw Amodau o'r Drwydded hon a achosir gan neu sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Trwyddedai, gan gynnwys (heb gyfyngiad) rhyfel, difrod gan elynion y Frenhines y Brenin, terfysgaeth, terfysg, gwrthryfel, helynt sifil, ymyrraeth gan streiciau, cyflogwr yn cau gweithle, protest mewn adeilad, picedu neu anghydfod diwydiannol neu weithredu diwydiannol arall.